WALES

# Ystâd Colby Taith Gerdded Mount and Barns Field (Llwybr Porffor)

Mae'r llwybr hunan-dywys hwn wedi'i farcio gan lwybr 2km o borfa wedi'i thorri sy'n mynd trwy gaeau a gwrychoedd i greu llwybr cylchol clocwedd. Mae gan y safle doreth o'r hen a'r newydd, gyda ffiniau caeau hanesyddol a llwybrau cloddio, yn ogystal â choetir llydanddail brodorol sydd wedi'i blannu'n ddiweddar (2024) gyda phyllau bywyd gwyllt drwyddi draw. Mwynhewch daith hamddenol gyda golygfeydd eang. Cadwch olwg dros amser wrth i'r safle newydd hwn ddod yn noddfa i lygod yr ŷd, gloÿnnod byw a gweision y neidr.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Rosemary Lane, cilfan, cyfeirnod grid: SN 15326 09934

Gweithgaredd: Cerdded

Hawdd: Mae esgidiau cerdded sy'n dal dŵr yn cael eu hargymell ar gyfer y daith gerdded hon. Gall y llwybr fod yn fwdlyd, yn enwedig yn y gaeaf. Amrywio rhywfaint o dir gwastad. Mae pyllau'n beryglus i blant felly dylid eu goruchwylio.

Addas i gŵn: Croeso i gŵn dan reolaeth agos ar Ystâd Colby. Croeso i gŵn ar dennyn yng Ngardd Goedwig Colby. Cŵn ar dennyn yn unig drwy dir fferm (gweler yr arwyddion ar y gatiau wrth fynd i mewn i dir fferm).

Llwybr llawn: Milltiroedd: 1.2 (km: 1.92)

Hyd: 50 munud

## Tirwedd

Mae'r tir yn amrywio rhywfaint o dir fferm gwastad gyda llethrau cymedrol. Er bod rhai llwybrau'n wastad, mae gan lawer o ardaloedd dir anwastad a gallant fod yn fwdlyd.

Manylion uchder: Cyfanswm esgyniad/disgyniad: 38m

Pwynt uchaf: 144m

## Cyfanswm y rhannau: 6

Man cychwyn: Rosemary Lane, cilfan, cyfeirnod grid: SN 15326 09934

1. O'r gilfan, ewch drwy'r giât fetel, ar draws yr iard a heibio adeiladau'r fferm.
2. Ewch drwy'r giât fetel, yna parhewch ar hyd y llwybr cylchol clocwedd troellog drwy ddilyn y llwybr o borfa wedi'i thorri. Ewch drwy sawl cae a giât (yn ddibynnol ar weithgarwch pori).
3. Ewch drwy'r giât fetel, trowch i'r chwith drwy'r giât fetel gyfagos. Ewch ymlaen tua'r dwyrain drwy'r caeau gan ddilyn y tro yn y llwybr am y de.
4. Ewch drwy'r giât fetel, trowch i'r chwith ac ewch drwy'r giât fetel nesaf. Parhewch i ddilyn y llwybr ar draws y caeau.
5. Pan fyddwch yn cyrraedd y giât fetel ar Rosemary Lane, croeswch y ffordd yn ofalus a dilynwch y llwybr drwy'r giât fetel sydd gyferbyn. Parhewch ar hyd y llwybr cylchol clocwedd troellog drwy ddilyn y llwybr o borfa wedi'i thorri.
6. Mentrwch ar draws y cae olaf tuag at goeden dderw hynafol, fawr. Byddwch yn ofalus wrth fynd drwy'r giât ac ar y ffordd ar gyfer y 90m olaf yn ôl tuag at y gilfan.

Man gorffen: Rosemary Lane, cilfan, cyfeirnod grid: SN 15326 09934